Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Asesiad Effaith ar y Gymraeg a Thystiolaeth Ategol

Paratowyd yn unol â Safonau'r Gymraeg 88-92

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn sail i gynnig y Cyngor i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Parc Acton o 60 i 30, yn Ysgol Lôn Barcas o 45 i 30 ac yn Ysgol Gynradd Clawdd Wat o 45 i 30.

Awst 2024

**Cyflwyniad**
Mae Fframwaith Trefniadaeth Ysgolion (2017-2025) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn nodi gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ar gyfer datblygiadau mewn darpariaeth addysg dros gyfnod o 10 mlynedd.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 12 Tachwedd 2024, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid ar gynnig i leihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Parc Acton o 60 i 30, yn Ysgol Lôn Barcas o 45 i 30 ac yn Ysgol Gynradd Clawdd Wat o 45 i 30. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r angen i leihau nifer y lleoedd disgyblion oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgolion dan sylw. Rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 2 Rhagfyr 2024 tan 24 Ionawr 2025 er mwyn caniatáu digon o amser i randdeiliaid ymateb.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg i roi ystyriaeth ddyledus i effeithiau cynigion ar y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn asesu'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar y gymuned ac mae'n rhan o nifer o asesiadau effaith gan gynnwys: y Gymraeg, Trafnidiaeth, y Gymuned, ac Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chydraddoldeb. Mae'r asesiad yn dwyn ynghyd ystod o ffynonellau data perthnasol am y Gymraeg, ystadegau, gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a pholisïau presennol y Cyngor a Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth. Rhaid ystyried y rhain yn eu cyd-destun ac ochr yn ochr â ffactorau lliniarol wrth i'r Cyngor benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a amlinellwyd.


Dogfennau byw yw asesiadau effaith a fydd yn cael eu diweddaru'n barhaus ar sail gwybodaeth ac adborth ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a phenderfyniadau a gaiff eu gwneud gan Aelodau Etholedig.

**Strategaeth Cymraeg 2050**
Cymraeg 2050 yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi dull hirdymor o gyflawni targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nod y strategaeth yw cyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2031) a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (2022-2027) Cyngor Wrecsam yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol a byddant yn dod yn gonglfaen i gyfraniad y Cyngor tuag at gyrraedd y targed a amlinellir yn strategaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Cynllun (2020-2023) Cyngor Wrecsam yn cynnwys y Gymraeg a Diwylliant Cymru fel egwyddor cynllunio strategol. Mae'n cydnabod bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol, Cymraeg a Saesneg, a dylai gwasanaethau a gwybodaeth fod ar gael yn gyfartal yn y ddwy iaith. Saesneg yw iaith fusnes fewnol y Cyngor, ond caiff yr holl weithwyr eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae gwasanaethau a gwybodaeth a ddarperir gan y Cyngor ar gael yn ddwyieithog.

Mae amcan 'Sicrhau Cyngor Modern a Gwydn' y Cyngor hefyd yn ailddatgan ein hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gadw at eu gofynion.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys gofynion perthnasol Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried y tair prif thema a amlinellir yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Efallai nad yw rhai o'r cwestiynau safonol yn yr asesiad effaith ar y Gymraeg a dwy o'r tair thema yn Cymraeg 2050 yn uniongyrchol berthnasol i'r cynnig hwn oherwydd cyfrwng iaith a chyfrwng darpariaeth yr ysgolion dan sylw, ond gan fod posibilrwydd y bydd y cynnig yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal, byddant yn cael eu hystyried yn llawn.




Fel y gwelir o'r siart llif uchod, mae'n bosib y bydd pob un o'r tair thema a amlinellir yn Cymraeg 2050 yn berthnasol, gan fod y cynnig yn ymwneud ag ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a allai effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam. O ganlyniad, bydd yr holl ysgolion y gallai'r cynnig yn rhesymol effeithio arnynt yn cael eu hystyried wrth gyfeirio at yr effeithiau a'r ffactorau lliniaru sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Mae'r awdurdod hefyd wedi ymrwymo i godi proffil y Gymraeg a chynyddu cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â nifer o amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, gan gynnwys:

- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Galluogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith ar gyfer byw;
- Galluogi plant a phobl ifanc i fagu hyder mewn dwyieithrwydd;
- Darparu gwybodaeth a dealltwriaeth am fanteision dwyieithrwydd;
- Sicrhau bod darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfateb i'r ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg;
- Gwella sgiliau staff i fod yn hyfedr wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg.

**Y Cynnig**
Y cynnig yw lleihau'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yn Ysgol Gynradd Parc Acton, Ysgol Gynradd Clawdd Wat ac Ysgol Lôn Barcas. Byddai hyn yn lleihad o gyfanswm o 60 o leoedd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd y gostyngiad mewn PAN ym mhob un o'r tair ysgol yn cael ei weithredu o fis Medi 2026 ymlaen ar gyfer disgyblion Meithrin a Derbyn.

**Pam mae'r Cyngor yn cynnig y newidiadau?**
Byddai'r newidiadau arfaethedig:

- Yn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion yn y tair ysgol dan sylw.
- Yn lleihau nifer cyffredinol lleoedd gwag y Cyngor yn ysgolion cynradd Wrecsam.
- Yn darparu datrysiad priodol i fodloni galw lleol am leoedd ysgol yn yr ardaloedd lle mae'r ysgolion wedi'u lleoli.
- Yn cyfyngu'r effaith ar bob ysgol, yn lleol ac ar draws y sir.
- Yn cefnogi twf cynaliadwy addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor a strategaeth Cymraeg 2050.
- Yn gwella safonau addysg ac yn yr hirdymor yn dod â budd i bob disgybl yn yr ardal.

Mae'r ffactorau sydd wedi'u hystyried gan y Cyngor wrth benderfynu ymgynghori ar y cynnig hwn yn cynnwys:

- Gallu parhaus yr ysgolion i ddarparu digon o leoedd i blant lleol.
- Darparu'r amgylchedd dysgu mwyaf priodol i bob disgybl i gefnogi gwella ysgolion yn barhaus.
- Cynllunio a rheoli adnoddau ar gyfer y dyfodol.

**Y Broses Ymgynghori**
Mae paragraff 3.4 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi: *"Pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (ar gyfer pynciau heblaw Cymraeg) drwy'r amser neu beth o'r amser, dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg."* Gan fod posibilrwydd y gallai hyn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg yr ardal, rhaid llunio Asesiad Effaith ar y Gymraeg.

Mae paragraff 1.4 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi:

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

- *Ystyried i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd* Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adran Effeithiau a Lliniaru.
- *Ystyried sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodi pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau.* Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adran Effeithiau a Lliniaru.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau a barn ar y cynnig. Fel rhan o’r broses ymgynghori bydd y Cyngor yn ymgymryd â nifer o ddulliau i geisio barn ar y cynnig, ac i gasglu gwybodaeth ar sut mae’r ymgyngoreion yn teimlo y gallai’r cynnig effeithio ar y Gymraeg a’i datblygiad pellach yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys arolwg ar-lein sydd ar gael i oedolion a phlant, ysgrifennu neu e-bostio'r Cyngor, llenwi'r ffurflen ymateb copi caled a ddarperir yn y llyfrynnau ymgynghori a/neu fynychu un o'r sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae’r holiadur ar-lein a’r ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau am yr effaith bosib ar y Gymraeg. Mae’r cwestiynau hyn (gweler Atodiad E) wedi’u datblygu yn unol â Safonau’r Gymraeg ac mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ar gais.

Wrth gyflwyno cynigion, mae’n bwysig bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion a, lle bo’n bosib, y disgyblion hynny sy’n debygol o fynychu’r ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylid rhoi cyfle i ddisgyblion yr holl ysgolion yr effeithir arnynt i fynegi eu barn am y cynnig hwn. Mae fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori a’r arolwg ar-lein ar gael i bob plentyn a pherson ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yn ogystal, bydd ymweliadau’n cael eu trefnu i gwrdd â Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Parc Acton, Ysgol Gynradd Clawdd Wat ac Ysgol Lôn Barcas.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor ymgynghori ar ei gynnig a chyhoeddi adroddiad ymgynghori sy’n crynhoi unrhyw faterion a godwyd gan ymgyngoreion, ymateb y Cyngor i’r materion hynny a barn Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynnig.

Bydd y cynnig a'r adroddiad ymgynghori yn cael eu hystyried gan Aelodau Etholedig y Cyngor ac os cytunir i fwrw ymlaen â'r cynlluniau yr ymgynghorwyd arnynt, yna cam nesaf y broses fydd cyhoeddi hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynnig. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi am gyfnod o 28 diwrnod a bydd modd cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig iddo.

Pan ddaw gwrthwynebiadau i law, cyhoeddir adroddiad gwrthwynebiadau yn crynhoi’r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cyngor i’r gwrthwynebiadau hynny. Bydd Aelodau Etholedig y Cyngor yn ystyried y cynnig yn ngoleuni’r gwrthwynebiadau a ddaeth i law wrth wneud penderfyniad o ran a yw'r cynnig i'w weithredu ai peidio.

Mae’r rhestr o ymgyngoreion yn cynnwys sefydliadau partner Cymraeg, gan gynnwys Fforwm y Gymraeg mewn Addysg a’r awdurdod lleol yn ymgynghori â’i holl ysgolion gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ymgynghorir hefyd â Chomisiynydd y Gymraeg.

Rhaid i asesiadau effaith ar y Gymraeg ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys cysylltiadau â deddfwriaeth a manylion tystiolaeth ategol a ffactorau lliniarol. Mae’r asesiad hwn yn dwyn ynghyd dystiolaeth ategol o nifer o ffynonellau gwybodaeth, yn cynnwys polisïau a strategaethau perthnasol y Cyngor, rheoliadau cenedlaethol a data’r Cyfrifiad, a gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth iddo benderfynu ar y cynigion ynghylch Ysgol Gynradd Parc Acton, Ysgol Gynradd Clawdd Wat ac Ysgol Lôn Barcas.

Drwy ystyried y wybodaeth uchod ar faterion ehangach am y Gymraeg, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu dangos tystiolaeth o ystyriaeth ymwybodol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2031) Wrecsam yn manylu ar y cynllun i gefnogi a datblygu addysg Gymraeg ymhellach mewn ysgolion.

**Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam**

Ar hyn o bryd, mae wyth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, un ysgol gynradd dwy ffrwd ac un ysgol uwchradd 11-18 oed sy'n cynnwys darpariaeth chweched dosbarth, sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Ninas Wrecsam.

Mae canran uchel o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam ar hyn o bryd yn dod o gartrefi Saesneg yn bennaf. Cyflwynir dwyieithrwydd cyn gynted â phosib ac mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnal a'i datblygu wrth i'r plentyn/person ifanc fynd drwy'r system.

Fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, "Datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach yw ein gweledigaeth o hyd ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd creu cyfleoedd i holl ddisgyblion Wrecsam fod yn ddwyieithog er mwyn iddynt allu dod allan o'n system addysg yn falch o'u hunaniaeth ac yn hyderus yn defnyddio'r ddwy iaith" (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, tudalen 5). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi ymdrechu i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref er mwyn sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion Wrecsam gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg petaen nhw'n dymuno gwneud hynny.

**Rhagamcanion Disgyblion a Lleoedd Gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg**

Mae'r tabl isod yn dangos y rhagamcanion disgyblion a nifer y lleoedd gwag fydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol dros y pum mlynedd nesaf.

| Enw'r Ysgol | Pellter o Ysgol Parc Acton | Pellter o Ysgol Clawdd Wat | Pellter o Ysgol Lôn Barcas |
|---|---|---|---|
| Ysgol Llan-y-Pwll | 1.005 | 1.452 | 0.784 |
| Ysgol Gynradd Plas Coch | 1.212 | 0.844 | 1.702 |
| Ysgol Bodhyfryd | 2.206 | 2.261 | 2.770 |
| Ysgol Bro Alun | 2.238 | 1.708 | 2.132 |
| Ysgol Bryn Tabor | 4.208 | 3.839 | 4.697 |
| Ysgol I. D. Hooson | 5.646 | 5.591 | 6.211 |
| Ysgol Min y Ddôl | 8.119 | 8.067 | 8.685 |
| Ysgol Cynddelw | 14.820 | 14.767 | 15.385 |
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 19.787 | 19.735 | 20.352 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bro Alun | 2025/2026 | 251 | 64 |
| Ysgol Bro Alun | 2026/2027 | 244 | 71 |
| Ysgol Bro Alun | 2027/2028 | 251 | 64 |
| Ysgol Bro Alun | 2028/2029 | 251 | 64 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bryn Tabor | 2025/2026 | 179 | 136 |
| Ysgol Bryn Tabor | 2026/2027 | 168 | 147 |
| Ysgol Bryn Tabor | 2027/2028 | 161 | 154 |
| Ysgol Bryn Tabor | 2028/2029 | 161 | 154 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Plas Coch | 2025/2026 | 267 | 48 |
| Ysgol Plas Coch | 2026/2027 | 270 | 45 |
| Ysgol Plas Coch | 2027/2028 | 280 | 35 |
| Ysgol Plas Coch | 2028/2029 | 275 | 40 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig heb gynnwys dosbarth arbennig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bodhyfryd | 2025/2026 | 214 | 206 |
| Ysgol Bodhyfryd | 2026/2027 | 212 | 208 |
| Ysgol Bodhyfryd | 2027/2028 | 205 | 215 |
| Ysgol Bodhyfryd | 2028/2029 | 192 | 228 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol I. D. Hooson | 2025/2026 | 192 | 123 |
| Ysgol I. D. Hooson | 2026/2027 | 189 | 125 |
| Ysgol I. D. Hooson | 2027/2028 | 190 | 125 |
| Ysgol I. D. Hooson | 2028/2029 | 193 | 122 |

| Enw'r Ysgol | Blwyddyn | Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig) | Lleoedd Gwag |
|---|---|---|---|
| Ysgol Min y Ddôl | 2025/2026 | 107 | 33 |
| Ysgol Min y Ddôl | 2026/2027 | 115 | 25 |
| Ysgol Min y Ddôl | 2027/2028 | 121 | 19 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Min y Ddôl | 2028/2029 | 120 | 20 |

| **Enw'r Ysgol** | **Blwyddyn** | **Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig)** | **Lleoedd Gwag** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Cynddelw | 2025/2026 | 68 | 58 |
| Ysgol Cynddelw | 2026/2027 | 72 | 54 |
| Ysgol Cynddelw | 2027/2028 | 74 | 52 |
| Ysgol Cynddelw | 2028/2029 | 73 | 53 |

| **Enw'r Ysgol** | **Blwyddyn** | **Rhagamcanion Disgyblion (Disgyblion Llawn Amser yn unig)** | **Lleoedd Gwag** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2025/2026 | 20 | 29 |
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2026/2027 | 18 | 31 |
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2027/2028 | 16 | 33 |
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2028/2029 | 16 | 33 |

**Noder nad yw rhagamcanion disgyblion a data lleoedd gwag ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Ysgol Llan-y-Pwll; sef yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sydd wedi agor yn ddiweddar ar hen safle Ysgol Fabanod Borras.*

Yn seiliedig ar ragamcanion, mae gan bob un o'r ysgolion hyn nifer o leoedd gwag ar gyfer rhieni ysgolion canol y ddinas sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant pe baen nhw'n dymuno hynny dros y pum mlynedd nesaf. Yn unol â pholisi cludiant y Cyngor, byddai cludiant ysgol am ddim yn cael ei ddarparu hefyd i ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg os ydynt yn bodloni'r meini

prawf pellter. Er mwyn bod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, byddai angen i blentyn fod yn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf i'w cartref a byddai angen i hyn fod ddwy filltir neu fwy i ffwrdd. Caiff pellteroedd eu mesur gan ddefnyddio system fapio GIS y Cyngor.

Yn ogystal, rhagamcenir y bydd nifer o leoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref gyfan y gallai rhieni fanteisio arnynt pe baent yn dymuno gwneud hynny. Yn unol ag argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2031, bydd y "pwyslais ar lenwi'r llefydd sydd gennym yn barod yn y system" (tudalen 35) cyn canolbwyntio ar ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach.

**Prosiectau Addysg Cyfrwng Cymraeg – Cefndir**

**Ysgol Plas Coch**

Yn 2016, gweithredwyd cynllun moderneiddio gwerth £1 miliwn yn yr ysgol, gyda'r nod o gynyddu'n barhaol nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg o 210 i 315. Mae estyniad i'r ysgol yn creu tair ystafell ddosbarth newydd sy'n darparu gofodau parhaol ar gyfer dysgu yn lle adeiladau dros dro.

**Ysgol Bro Alun**

Yn 2013, agorwyd ysgol cyfrwng Cymraeg newydd â lle i 210, sef Ysgol Bro Alun. Roedd yr ysgol hon mor llwyddiannus yn denu disgyblion fel ein bod ers hynny wedi ehangu'r safle hwn i gynnwys lle i 315 ym mis Medi 2019. Roedd y prosiect yn cynnig cyfle ar gyfer twf parhaus, yn cynnig mwy o ddewis i rieni ac yn diwallu'r cynnydd o ran lledaeniad demograffig ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Ysgol I. D. Hooson**

Ochr yn ochr ag ehangu Ysgol Bro Alun yng Ngwersyllt yn llwyddiannus, mae'r Cyngor hefyd wedi llwyddo i sicrhau cais amlinellol am gyllid, o dan ffrwd ariannu Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, i ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol I. D. Hooson yn Rhosllannerchrugog. I ddechrau, cais am estyniad ar gyfer dwy ystafell ddosbarth yn lle'r dosbarthiadau symudol presennol ar y safle oedd hyn. Ers y cais llwyddiannus hwn, mae'r Cyngor, fel ffordd o gefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, wedi gofyn am arian cyfalaf ychwanegol i sicrhau £6,300,000 i ehangu adeilad presennol yr ysgol gynradd yn barhaol gyda saith ystafell ddosbarth ychwanegol. Byddai'r cynllun hefyd yn caniatáu ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol, er enghraifft i gynnwys neuadd stiwdio, cegin fwy wedi'i hadleoli ac estyniad i ardaloedd y Cyfnod Sylfaen. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant o 100% ar gyfer y grant Cyfalaf hwn. Bydd yr estyniad yn darparu gofodau parhaol ar gyfer dysgu i gymryd lle'r ystafelloedd dros dro a bydd hefyd yn gartref i ddarpariaeth gofal plant cofleidiol dros dro. Mae hyn eto'n creu mwy o gapasiti ac yn rhoi cyfle i Ysgol I. D. Hooson ddod yn ysgol gynradd â lle i 420 os bydd angen.

**Ysgol Llan-y-Pwll**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu lledaeniad daearyddol ysgolion cyfrwng Cymraeg y fwrdeistref drwy agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar hen safle Ysgol Fabanod Borras. Roedd y prosiect yn cynnwys ehangu ac ailfodelu safle blaenorol Ysgol Fabanod Borras yn helaeth er mwyn darparu ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyda lle i 210 a meithrinfa â lle i 30. Sicrhawyd cyllid hefyd drwy'r grant Gofal Plant a chrëwyd darpariaeth Gofal Plant newydd ar y safle. Drwy gynyddu lledaeniad

daearyddol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn gynyddol hygyrch i rieni ac wedi sicrhau bod yr amser y mae angen i ddisgyblion ei deithio i ysgol cyfrwng Cymraeg leol yn cael ei leihau. Agorodd Ysgol Llan-y-Pwll ym mis Medi 2022 ar gyfer plant derbyn a meithrin. Nodau'r prosiectau uchod oedd:

- Parhau i wella mynediad a chreu cyfranogiad ehangach ym maes addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel Gynradd i ddysgwyr Wrecsam.
- Parhau i gynyddu cyfranogiad a chadw niferoedd yn y sector Cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Mynd i'r afael â'r galw am leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam.
- Cynyddu lledaeniad demograffig y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam.
- Sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ddarparu'r gwerth gorau am arian.
- Cefnogi gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cefnogi nodau ac amcanion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (2022-2027) Cyngor Wrecsam.

## Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

O ran addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu Rhaglen Drochi ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhaglen hon yn galluogi disgyblion i gael cymorth Cymraeg dwys yn Ysgol Morgan Llwyd; ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Wrecsam. Mae'r rhaglen yn cychwyn yn ystod ail hanner tymor yr haf, tra bod y disgyblion yn dal ym Mlwyddyn 6, ac yn parhau drwy gydol Blwyddyn 7. Yn dilyn llwyddiant y Rhaglen Drochi rydym yn mynd ati i chwilio am grantiau ariannu i adeiladu ar y llwyddiannau hyn.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi cynyddu'r capasiti sydd ar gael ar safle Morgan Llwyd, gyda 240 o leoedd ychwanegol, drwy greu darpariaeth chweched dosbarth annibynnol o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gost o £1,734.544. Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Mai 2019.

Yn y dyfodol, bydd angen ymgynghori ymhellach i gynyddu'r nifer derbyn yn ffurfiol yn ôl yr angen, gan ddefnyddio'r gofod sy'n rhydd yn sgil y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd.

### Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn ac mae'r iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da tuag at yr iaith ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni a chydnabyddiaeth gyffredin o'i chyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth yw creu amodau ffafriol ym mhob rhan o'r wlad sy'n cefnogi caffaeliad yr iaith a'r defnydd ohoni. Rydym am weld cynnydd yn nhrosglwyddiad yr iaith o fewn y teulu, cyflwyniad cynnar y Gymraeg i bob plentyn, system addysg sy'n darparu sgiliau Cymraeg i bawb.

Wedi cydnabod yr awch am addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam rydym yn hynod o falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac ymrwymo i'w ddatblygiad pellach yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn ateb y galw am lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn wir gwelwyd twf sylweddol mewn llefydd cyn ac yn ystod oes y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg blaenorol. Yn 2013 agorwyd Ysgol Bro Alun, ysgol cyfrwng Cymraeg 210 lle newydd; cymaint oedd llwyddiant yr ysgol mewn denu disgyblion rydym eisoes wedi ehangu'r ddarpariaeth yno i wneud lle i 315 o blant.
Yn ogystal, rydym wedi ehangu'r ddarpariaeth mewn nifer o ysgolion cyfwng Cymraeg lle'r oedd y safleoedd yn caniatáu hynny. Ers 2019, rydym wedi cynyddu capasiti gan 165 o leoedd neu 8.7% mewn ysgolion cynradd.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-31 yn rhan hanfodol o weledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu a gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, er mwyn galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Mae'n ategu ac yn hwyluso'r weledigaeth Genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, sef cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

O dan Safon y Gymraeg 145, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu strategaethau hyrwyddo pum mlynedd, gan weithio gyda sefydliadau partner i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eu priod feysydd. Ymhlith materion eraill, mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys y canlynol:

- Targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eu hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd dan sylw;
- Datganiad yn nodi sut maen nhw'n bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a chynnal adolygiad o'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eu gwefan o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).


Mae addysg cyfrwng Cymraeg, boed ar ffurf darpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn drwy ysgolion Cymraeg, neu addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn cefnogi'r nod hwn yn uniongyrchol ac yn cysylltu'r strategaeth hon yn ei hanfod â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Ystyriaethau Amddifadedd Cymdeithasol**
Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, adroddwyd bod Awdurdod Lleol Wrecsam yn cynnwys 85 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) (4.5% o gyfanswm y 1909 AGEHI yng Nghymru). O'r 0-10% AGEHI fwyaf difreintiedig yng Nghymru o fewn y parth cyffredinol: mae 6 yn dod o dan Awdurdod Lleol Wrecsam. Mae hynny i gyfrif am 7.1% o'r rhai yn yr Awdurdod Lleol a 0.3% o'r rhai yng Nghymru.
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Wrecsam (llyw.cymru)

Gallai’r cynnig i leihau capasiti tair ysgol cyfrwng Saesneg gael effaith gadarnhaol ar ddewis rhieni a mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o ran y cyfleoedd cadarnhaol tybiedig y gallai lle posib mewn darpariaeth Gymraeg eu cynnig i’w plant.

Mae ystyriaethau o ran y Gymraeg ac ystyriaethau economaidd-gymdeithasol i'w hystyried. Mae nifer o fesurau lliniaru posib i gyfyngu ar effeithiau andwyol wedi’u hamlinellu yn yr adran Effeithiau a Lliniaru.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019

### Sgiliau Cymraeg yn Wrecsam (o Gyfrifiad 2021)

| Sgiliau Cymraeg | Canran |
|---|---|
| Yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg | 14.5% |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 5.4% |
| Yn gallu siarad Cymraeg, ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg | 1.9% |
| Yn gallu siarad a darllen Cymraeg, ond ddim yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg | 0.9% |
| Yn gallu darllen Cymraeg, ond ddim yn gallu siarad nac ysgrifennu yn Gymraeg | 1.4% |
| Yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg, ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg | 0.2% |
| Yn gallu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, ond ddim yn gallu siarad Cymraeg | 0.6% |
| Dim sgiliau yn Gymraeg | 80.1% |

Yn ôl Cyfrifiad 2021, cafodd dros hanner poblogaeth Wrecsam eu geni yng Nghymru (67.9%). Mae 14.5% o boblogaeth Wrecsam yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg. Mae’r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar ei uchaf yn ward wledig Rhosllannerchrugog a De Tre Ioan (23.1%) ac ar ei isaf yn ward wledig Bangor Is-coed, Owrtyn a Llannerch Banna (9.4%). Mae 12.2% o boblogaeth Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru o 17.8%.

**Polisi WL1: Y Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau**

Yn yr Ardaloedd Sensitif o ran y Gymraeg a nodir ar Fap y Cynigion (cymunedau Ceiriog Ucha, Coed-poeth, Glyntraean, Llansantffraid Glyn Ceiriog, y Mwynglawdd, Pen-y-cae a Rhosllannerchrugog) bydd yr hap-ddatblygiadau a ganlyn yn destun Asesiad Effaith ar y Gymraeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Pan fydd yr Asesiad Effaith yn dangos y gallai’r datblygiad gael effaith andwyol, rhaid cyflwyno Cynllun Gweithredu’r Gymraeg gyda’r cynigion sy’n nodi’r mesurau i’w cymryd i warchod, i hyrwyddo ac i wella sefyllfa’r Gymraeg a diwylliant Cymru:

i. Pob cais preswyl ar gyfer pump neu fwy o unedau yn Nyffryn Ceiriog (cymunedau Ceiriog Ucha, Glyntraean, Llansantffraid Glyn Ceiriog) a'r Mwynglawdd;

ii. Pob cais preswyl ar gyfer 15 neu fwy o unedau mewn mannau eraill yn yr Ardaloedd Sensitif o ran y Gymraeg.

Sicrheir gweithrediad unrhyw fesurau a nodir yng Nghynllun Gweithredu’r Gymraeg naill ai drwy amodau cynllunio neu, pan fydd angen, drwy rwymedigaethau cynllunio.

**Effeithiau a Lliniaru**

Mae'r effeithiau posib canlynol wedi'u nodi ar gyfer y cynnig hwn:

| Effaith Bosib | Negyddol/Cadarnhaol | Lliniaru | Sylw / Effaith ar Amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'n bosib y bydd niferoedd disgyblion yn cynyddu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd llai o gapasiti yn Ysgol Gynradd Parc Acton, Ysgol Gynradd Clawdd Wat ac Ysgol Lôn Barcas. | Cadarnhaol | Gallai'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol bosib ar amcanion 1 a 2 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:<br><br>*Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*<br><br>*Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*<br><br>Mae'r awdurdod lleol wedi mynd ati'n rhagweithiol i greu rhaglen o ddigwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo i hyrwyddo'r cynnig o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a bydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt.<br><br>Yn dilyn buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam, gan gynnwys adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu, rydym bellach mewn sefyllfa lle mae 100% o leoedd dewis cyntaf mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u bodloni.<br><br>Mae'r ddarpariaeth drochi yn cynnig 'cwrs blasu' yn ystod tymor yr haf ym Mlwyddyn 6 fel y gall dysgwyr o ddarpariaethau cyfrwng Saesneg benderfynu a ydynt am drosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. O fis Medi 2023 ymlaen, rydym wedi cynnig sesiynau 'trochi' i bob ysgol cyfrwng Saesneg. Bu galw cynyddol am ddarpariaeth Drochi gyda niferoedd cynyddol o ddisgyblion | Cysylltiadau ag amcanion 1 a 2 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r cynnig hwn o bosib gefnogi'r cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma ac ehangu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd gostyngiad yn nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg i ddisgyblion.<br><br>Mae'r ddarpariaeth Drochi wedi tyfu fel a ganlyn yn ystod y pedair blynedd diwethaf: 2021/22 (o dan Ysgol Morgan Llwyd) – 3 dysgwr, 2022/23 (dan yr Awdurdod Lleol) – 17 dysgwr, 2023/24 – 24 dysgwr, 2024/25 – 32 dysgwr. Rydym yn rhagweld y bydd nifer y dysgwyr yn cynyddu eto ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gallai fod angen mwy o staff addysgu sy’n siarad Cymraeg yn Wrecsam pe bai mwy o ddisgyblion yn dewis lleoedd cyfrwng Cymraeg. | Cadarnhaol | Gallai’r cynnig gael effaith gadarnhaol bosib ar amcan 7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:<br><br>*Cynyddu nifer y staff addysgu sy’n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg*<br><br>Gallai gostyngiad yn nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg olygu bod mwy o ddisgyblion yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae agor ein huned Drochi newydd wedi rhoi cyfle i ddefnyddio'r ddarpariaeth drochi i wella sgiliau staff. Mae staff yn mynd ar raglenni hyfforddiant ‘magu hyder’ yn ein huned caffael iaith gynradd yn Ysgol Min y Ddôl. Rydym yn bwriadu defnyddio’r uned Drochi newydd yn Ysgol Morgan Llwyd i ehangu’r ddarpariaeth yma a gwella sgiliau athrawon cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu eu hyder a’u hysbrydoli i drosglwyddo eu brwdfrydedd i’r dysgwyr, gan gyfrannu at ddiddordeb yn yr iaith ac o bosib trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd cael canolfan barhaol ar gyfer y ddarpariaeth yn 2025 yn galluogi’r gwasanaeth i wireddu ei strategaeth hirdymor ar gyfer datblygu a pharhau i gyfrannu at dargedau Cymraeg 2050. | Cysylltiadau ag amcan 7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae cwrs CAMAU ar gael i bob ymarferydd blynyddoedd cynnar. Cwrs dysgu Cymraeg am ddim yw hwn sydd wedi ei gynllunio ar gyfer staff Cylchoedd Meithrin, meithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant. Cwrs hunan-astudio ar-lein yw hwn ar lefel Mynediad (felly mae'n addas ar gyfer dechreuwyr a'r rhai sydd wedi mynychu Cyrsiau Blasu).<br><br>Mae cyrsiau sabothol ar gael i staff addysgu a staff cymorth di-Gymraeg. Mae staff addysgu a staff cymorth o bob rhan o Wrecsam yn manteisio ar y cyfle hwn fel rhan o'u datblygiad proffesiynol bob blwyddyn. | |

**Casgliad a Chrynhoi**

Rydym yn hyderus y bydd ein gwaith ar yr amcanion hyn yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ein cynorthwyo i barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith andwyol sylweddol o ganlyniad i'r cynnig hwn i leihau lleoedd disgyblion mewn tair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, ac rydym wedi nodi'r effeithiau cadarnhaol posib ar y Gymraeg a/neu addysg cyfrwng Cymraeg.